



Ysgol Pentreuchaf

25. Polisi Codi Tâl am Weithgareddau

Nod

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Pentreuchaf yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan amrywiaeth eang o weithgareddau ychwanegol, gan gynnwys gwersi nofio a gymnasteg, ymweliadau, creu gwrthrychau, mynychu perfformiadau a.y.y.b.

Amcanion

Hyrwyddo a darparu cyfleoedd amrywiol o ran cwricwlwm eang a chytbwys ac o ran profiadau all-gwricwlaidd i bob plentyn.

Canllawiau

1. Ceisiwn gyfraniadau gwirfoddol gan rieni i sicrhau fod gweithgareddau sy'n digwydd yn oriau ysgol, megis bws gwersi nofio a defnydd o'r gampfa yn gallu parhau.
2. Os oes unrhyw riant yn ei chael yn anodd i dalu, fe'i gwahaoddir i weld y Pennaeth ac fe wneir trefniadau eraill i oresgyn y broblem. Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu neu amharodrwydd i gyfrannu'n wirfoddol.
3. Mae'n bosib talu'n llwyr neu'n rhannol am ymweliadau yn 1. uchod o Gronfa'r Ysgol gan gofio hefyd bod angen arian o'r Gronfa i amrywiaeth o sefyllfaoedd ac offer eraill.
4. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i ddileu neu ohirio unrhyw weithgaredd os nad yw cyfanswm y cyfraniadau yn ddigonol.
5. Anfonir llythyr at y rhieni/gwarchodwyr cyn ymweliad neu berfformiad a.y.y.b. yn cyhoeddi bwriad yr ysgol ac yn nodi'r gost.
6. Codir tâl ar rieni am unrhyw ddifrod i lyfrau neu offer addysgol, ffenestri, drysau neu ffitiadau adeiladau ysgol yn deillio o gamymddygiad disgybl.
7. Codir tâl yn rhannol yn ôl argymhellion yr Awdurdod am wersi Offerynnol unigol.
8. Codir tâl yn llawn am weithgareddau sydd yn cymryd lle yn gyfangwbl neu gan mwyaf y tu allan i oriau'r ysgol ac nad ydynt yn angenrheidiol i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu Addysg Grefyddol statudol.
9. Codir tâl am gostau bwyd a llety yn ystod ymweliadau preswyl ag eithrio ar blant sydd â hawl i ad-daliad statudol.
10. Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau.
11. Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu'r polisi hwn.

Casgliad

Mae ysgolion angen cyfraniad ariannol gan rieni er mwyn medru cynnal gweithgareddau i gyfoethogi profiadau'r disgyblion a chodi safonau'r addysg. Er hyn, rhaid diogelu cyfleoedd i bob plentyn allu elwa o holl weithgareddau, ymweliadau a threfniadau'r ysgol a sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn, beth bynnag fo ymroddiad ei rieni, neu eu gallu i gyfrannu.

Adolygir Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____